**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED COMMUNITY COUNCIL**
Tryal Bach, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA33 6ST
clerccynwylelfed@gmail.com 01267281128 07792765732

# CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED- ADRODDIAD BLYNYDDOL 01.04.2025 - 31.03.2026

## Cyflwyniad:

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Y Cynghorydd Amy Evans
Cadeirydd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed 2025/2026.

## Adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned:

Mae Adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, i'w gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

*https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/section/52*
*https://www.llyw.cymru>safleoedd.ffeiliau>cyhoeddiadau*

**Eich Cyngor Cymuned**
**Rôlau a swyddogaeth y Cyngor:**
Mae Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed yn gwasanaethu'r ardal sy'n cynnwys Bryn Iwan, Blaenycoed, Cwmduad, Hermon a Cynwyl Elfed - gyda phoblogaeth o tua 1,002 (Cyfrifiad 2021).

**Cyfleusterau Cyhoeddus Cynwyl Elfed**
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'r cyfleusterau cyhoeddus yng Nghynwyl Elfed ar agor gan fod y Cyngor yn credu bod darparu toiled cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer urddas a lles pobl sy'n ymeld â Chynwyl Elfed, i bobl sy'n gweithio yn yr ardal neu i'r rhai sy'n ymweld â'r Parc. Y flwyddyn 2025/26 yw'r flwyddyn lawn gyntaf ers y cymryd drosodd lle mae'r Cyngor wedi derbyn yr anfonebau fel y disgwyliwyd ac mae taliadau cyfleustodau wedi setlo i batrwm rheolaidd. Mae'r Cyngor yn talu am wasanaethau glanhau ac mae aelodau'r Cyngor wedi gwirfoddoli i lanhau pan fo angen gwaith ychwanegol. Mae'r asesiad risg ariannol blynyddol yn tynnu sylw at risgiau ariannol posibl sy'n ymwneud â'r bloc toiledau ac y mae'r Cyngor yn ymdrechu i'w lleihau.

**Diffibrilwyr**
Mae saith diffibriliwr yn yr ardal. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob un o'r 7 diffibriliwr yn barod ar gyfer argyfwng a phenderfynwyd y byddai'r Cyngor yn prynu i newid unrhyw nwyddau sy'n mynd allan o ddyddiad ar gyfer pob un o'r 7 diffibriliwr. Mae pob un o'r 7 diffibriliwr wedi'u cynnwys o dan Yswiriant y Cyngor. Y Cyngor yw gwarcheidwad chwech o'r diffibrilwyr. Mae gan Bryn Iwan eu gwarcheidwad eu hunain. Mae gwirfoddolwr yn garedig yn gwirio'r 7 diffibriliwr unwaith y mis ac yn adrodd yn ôl ir clerc sy'n diweddaru "the Circuit" gyda statws y diffibrilwyr. Yn ystod 2025/26 bu'n rhaid newid y diffibriliwr yng Nghwmduad i un mwy newydd. Derbyniwyd siec drwy law'r Cynghorydd Eifion Jones am y swm o £662.72 a oedd yn cynnwys arian a adawyd er cof ac yn rhannol o arian a godwyd yn lleol. Cytunodd y Cyngor i dalu'r diffyg oedd ei angen i brynu diffibriliwr newydd. Yr oedd cabinet newydd eisioes yn ei le ar ei gyfer. Derbyniwyd y diffibriliwr newydd ym mis Gorffennaf 2025. Yn ystod y flwyddyn cafodd 5 pad electron eu newid ar gost o £247.00 + T.A.W. Bydd angen batris newydd yn ystod y flwyddyn nesaf a gwnaed darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2026/27 ar gyfer treuliau rhagamcanol y diffibrilwyr.

**Cae Chwarae Bro Elfed.**

Mae Pwyllgor y Parc ar wahân i'r Cyngor Cymuned, ond os na fydd Pwyllgor y Parc yn llwyddo i gynnal a chadw'r parc, mae'n rhaid wedyn i'r Cyngor gymryd drosodd reolaeth y parc. Mae Cynghorwyr Lleol ar bwyllgor y parc ac yn ystod 2025/26 trefnasant ddigwyddiad cymdeithasol a ddaeth â'r gymuned ynghyd i lanhau'r parc a'r offer. Cynhaliwyd Carnifal er mwyn codi arian ar gyfer y parc a oedd yn llwyddiant. Mae pwyllgor y parc yn gweithio tuag at gael grant er mwyn gwella a diweddaru'r ardal chwarae, sydd wedi bod yn heriol iawn iddynt oherhwydd problemau wrth recriwtio aelodau i'r pwyllgor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi Pwyllgor y Parc yn eu nod o wella cyfleusterau lleol ac yn ei dro gyfrannu at lesiant y gymuned leol.

**Goleuadau Stryd - 35 yn gyfan gwbl.**

Mae'r Cyngor yn talu Cyngor Sir Caerfyrddin am drydan a chynnal a chadw goleuadau stryd yn flynyddol, a chaiff y bil ei anfonebu ar ddiwedd mis Mawrth. Ar gyfer y flwyddyn 2025/26, y ffigur gan gynnwys T.A.W. oedd £1,618.13. Talwyd yr ad-daliad terfynol o £300 ynghyd â llog I'r o Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2026. Mae ad-daliad blynyddol hefyd i Gyngor Sir Caerfyrddin of £417.00 gan gynnwys T.A.W. mewn perthynas â newid 20 i lusernau newydd LED yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, am gost of £139.00 yr un, i'w hanfonebu ym mis Ionawr yn flynyddol tan y flwyddyn ariannol 2028/29.

**Ymgynghoriadau Cynllunio**

Mae'r Cyngor yn rhoi sylwadau ar bob cais cynllunio yn yr ardal, trwy wneud ymholiadau yn gyntaf i ganfod barn pobl a allai gael eu heffeithio gan yr eitem gynllunio. Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gwneud y penderfyniad terfynol gan ystyried ymateb y Cyngor Cymuned sy'n rhan o'r Broses Ymgynghori.

**Materion Priffyrdd**

Mae'r Cyngor yn trafod problemau/materion ynghylch y ffyrdd lleol yn y cyfarfodydd misol ac yn anfon adroddiad ar y canfyddiadau i'r Adran briodol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin neu/ac Uned Atal Damweiniau Heddlu Dyfed Powyd.

**Cyfarfodydd.**

Mae'r Cyngor fel arfer yn cyfarfod ar drydydd dydd Llun bob mis (ac eithrio mis Awst). Cynhelir y cyfarfodydd yn ystafell gyfarfod Canolfan Gymdeithasol Cynwyl Elfed (Neuadd y Pentref) ac maent yn dechrau am 7.30 *y.h.*
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar drydydd dydd Llun ym mis Mai ac Mae'n dechrau am yr amser cynharach sef 7:00 *y.h*. ac yna mae cyfarfod misol mis Mai yn ei ddilyn.
Yn ogystal, bydd y Cyngor yn galw Cyfarfod Cyhoeddus i ymgysylltu â'r Gymuned gyfan pan fydd angen iddo ymgynghori â thrigolion ar faterion lleol arwyddocaol.

**Sioe Amaethyddol C.F.C Cynwyl Elfed - Awst 2025**

Roedd y Cyngor yn bresennol yn y sioe ac wedi archebu bwrdd i alluogi aelodau i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn lleoliad cymdeithasol.

**Aelodau**

Etholwyd cynghorwyr yn Etholiadau Llywodrawth Leol ym mis Mai 2022 i wasanaethu tymor pum mlynedd yn y swydd, neu eu hethol/cyfethol yn ddiweddarach. Mae cynghorwyr yn cael eu hethol i gynrychioli'r gymuned leol, ac felly rhaid iddynt fyw neu weithio yn ardal y Cyngor.
Fel cynrychiolwyr lleol, mae cynghorwyr yn ymwneud ac yn gweithio gydag amrywiaeth o glybiau a sefydliadau sy'n cyfrannu at wella bywydau yn y gymuned.

Ar hyn o bryd mae 8 Cynghorydd Cymuned yn gwasanaethu ac mae dau swydd wag fel Cynghorydd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. Mae'r swyddi gwag wedi'u hysbysebu ar yr hysbysfwrdd ym Mryn Iwan a Cynwyl Elfed ac mae hysbysiad ar dudalen Newyddion/ Hysbysiadau gwefan y Cyngor. Cynhelir yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027.

Rhestrir isod y cynghorwyr Cymuned sy'n gwasanaethu ar gyfer Cynwyl Elfed yngyd â'r Pwyllgorau Arbennig y casant du hethol i'w cynrychioli yn ystod 2025/2026:
**Cllr. Amy Evans** - Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal a Fforwm Sirol, Cae Chwarae Bro Elfed, Elusen Unedig Cynwyl Elfed.
**Cllr. Delme Phillips** - Corff Llywodraethol Federasiwn Ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint, Elusen Unedig Cynwyl Elfed.
**Cllr. Bryan Davies** - Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal a Fforwm Sirol.
**Cllr. Elfed Davies** - Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Cllr. Eifion Jones** - Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed, Elusen Unedig Cynwyl Elfed..
**Cllr. Julian Evans** - Pwyllgor Henoed Cynwyl Elfed, Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed.
**Cllr. Robin Bowen**- Pwyllgor Cae Chwarae Bro Elfed.
**Cllr. Aled Jones** - Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed.
Disgwylir i bob Cynghorydd fynychu cyfarfodydd a chymryd diddordeb gweithredol mewn materion sy'n ymwneud â helpu/cymryd rhan mewn, a chefnogi digwyddiadau lleol.

Mae cynghorwyr wedi mynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan Un Llais Cyrmu yn ystod y flwyddyn.
Gweler Polisi Hyfforddi Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Bryan Davies sydd ogystal â bod yn Gynghorydd Cymuned, yn gwasanaethu fel Cynnghorydd Sir dros Ward Cynwyl Elfed gan gynrychioli cymunedau Bronwydd, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

**Cyfathrebu**
Mae gan y Cyngor Cymuned wefan lle gellir dod o hyd I fanylion cyswllt Aelodau'r Cyngor. Cyhoeddir agendâu a chofnodion cyfarfodydd ynghyd â gwybodaeth ariannol, manylion canlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol a pholisïau'r Cyngor.
Cyfeiriad y Cyngor yw *https://www.cynwylelfed.cymru*
Mae gan y wefan dudalennau Saesneg a Chymraeg.

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg ac Mae cyfieithydd proffesiynol ym mhob cyfarfod er mwyn i siaradwyr Cymraaeg ddefnyddio'r iaith y maent yn fwyaf cyfforddus ynddi, gan ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg gymryd rhan lawn.

**Crynodeb Cyllid 2025/2026**
**Praesept**
Mae'r Cyngor Cymuned yn cael ei ariannu gan braesept sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ym mis Rhagfyr mae'r Cyngor yn cyfrifo faint o arian sydd angen i'r Cyngor ei godi er mwyn darparu ar gyfer ei wasanaethau ac ariannu unrhyw brosiectau a gynlluniwyd. Trafodir y gyllideb yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor a chytunir ar y braesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Archwilio**
Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned gael trefniadau digonol ac effeithiol ar waith ar gyfer archwiliad mewnol blynyddol o'u cofnodion, cyfrifyddu a'u rheolaeth fewnol.
Yna mae'r Cyngor Cymuned yn destun archwiliad allanol statudol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
Mae'r holl wybodaeth ariannol, gan gynnwys y Ffurflen Flynyddol, adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, ar gael i'w gweld o dan y tudalennau Cyllid ar wefan y Cyngor.

**T.A.W.**
Caiff unrhyw T.A.W. a dalwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ei hawlio'n ôl yn dilyn yr Archwiliad Mewnol.

**Taliadau Aelodau**
Mae Taliadau Aelodau yn daliad gorfodol i Gynghorwyr oni bai eu bod yn llofnodi i optio allan. Yn 2025/26 talwyd taliad o £156.00 i bob Cynghorydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn unol ag Adran 151 o Fesur Llywodraeth Leol 2011, rhaid i Gynghorau Cymuned a Thref gyhoeddi o fewn eu hardal awdurdod y taliadau a dderbyniwyd gan eu haelodau erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid anfon yr wybodaeth hon at y Panel Annibynnol ar Dâl Cymru erbyn yr un dyddiad.

**Adran 137**
Mae Adran 137(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu gwariant a fydd o fudd uniongyrchol i'r ardal a'i thrigolion os na ellir defnyddio pwerau eraill. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn drwy weithredu'r Cynllun Grantiau Bach. Cyhoeddir manylion y grant a sut i wneud cais ar wefan y Cyngor ar y dudalen Hysbysiadau/Newyddion.
Mae Adran137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r Cyngor wario arian at rai dibenion elusennol. Mae manylion y Grantiau a roddwyd i'w gweld yng nghofnodion cyfarfod mis Mawrth. Cyhoeddir yr holl gofnodion ar Wefan y Cyngor.

**Y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC)**

Y Clerc yw Prif Swyddog y Cyngor a gyflogir o dan adran 112 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fel Swyddog Priodol y Cyngor yn ôl y gyfraith, mae'r Clerc yn atebol i'r Cyngor cyfan. Ni all aelodau unigol roi cyfarwyddiadau i'r Clerc. Rhaid i'r Cyngor hefyd benodi Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) i reoli ei gyllid. Mewn cynghorau Cymuned llai fel Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed, yr un person yw'r Clerc a'r SAC, ond nid oes rhaid i hyn fod y drefn.

Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost, cyfeiriad: *clerccynwylelfed@gmail.com*

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau or cyhoedd yn mynychu Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed.
Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.
Cyhoeddir pob papur agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

********************